



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Y diweddaraf am yr asesiad poblogaeth

Ebrill 2017 (Rhifyn 5)

## Cyhoeddi'r Adroddiad!

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys 12 pennod a dros 300 o dudalennau o wybodaeth am anghenion gofal a chefnogaeth pobl yng Ngogledd Cymru. Mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel fersiwn cryno, hawdd ei ddarllen, ac i bobl ifanc ar-lein yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/91344>

## Beth Nesaf?

Rydym nawr yn rhannu canfyddiadau'r adroddiad. Bydd newyddlenni'r dyfodol yn cynnwys sbotolau ar bob un bennod. Yn y newyddlen hon rydym yn edrych yn agosach ar beth y gwnaethom ei ganfod am anghenion gofal a chefnogaeth plant a phobl ifanc.

Nesaf, byddwn yn ysgrifennu cynllun ardal rhanbarthol gan nodi'r ystod a lefel o wasanaethau y mae'r cynghorau a byrddau iechyd lleol yn bwriadu eu darparu neu drefnu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Mae'n




## Sbotolau ar... blant a phobl ifanc

rhaid cwblhau hwn erbyn 1 Ebrill 2018.

Rhowch wybod i ni os hoffech gymryd rhan wrth ddod â'r cynllun rhanbarthol at ei gilydd.


Byddem hefyd yn hoffi clywed sut mae'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallwn wella adroddiadau yn y dyfodol.




# Beth y gwnaethom ei ganfod

- Mae 124,000 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru. Byddwn yn disgwyl cael yr un nifer yn y flwyddyn 2039.
- Mae gostyngiad wedi bod mewn atgyfeiriadau at y gwasanaethau plant, ond fe all hyn newid wrth i gymhwysedd newid. Mae'r mwyafrif o'r atgyfeiriadau gan yr heddlu neu'r cyngor, ac mae hanner ohonynt oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod.
- Yn y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 9% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Mae 1,000 o blant yn derbyn gofal gan gynghorau yng Ngogledd Cymru ac mae'r nifer yn cynyddu. Mae Cynghorau'n gorfod ceisio lleoli plant gyda theulu neu ffrindiau cyn lleoliadau eraill, sy'n newid y galw ar wasanaethau maethu.
- Mae mwy o blant anabl a phlant gydag anghenion cymhleth iawn.
- Mae'r mwyafrif o blant yn iach, ond rydym yn dal yn gorfod hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach, ac atal profiadau gwael i blant.
- Mae secstio a bwlio ar-lein yn broblem gynyddol.
- Mae nifer y troseddwy'r ifanc yn gostwng, ond mae mwy o bobl ifanc yn rhoi gwybod eu bod yn ddiodefwr o drosedd.
- Mae llawer o bobl yn poeni am iechyd meddwl plant, yn cynnwys cynnydd mewn hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta.


Amcan o'r boblogaeth, plant 15 oed ac ieuengach



Nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul sir, Gogledd Cymru



Canran plant sy'n teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos, Cymru



## Beth wnaeth plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ei ddweud wrthym?

- Mai'r pethau sy'n bwysig iddynt yw ffrindiau, bod yn egniol ac iach, teulu, hobiau a diddordebau, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ffôn a Wifi.
- Mai'r pethau y maent yn ei chael yn anodd yw: cael ysgogiad, canfod gwaith, aros yn iach, cymdeithasu, teimlo'n hyderus, ffitio i mewn, bod yn annibynnol, siarad am y pethau rydych ei eisiau mewn bywyd, a heriau maent yn eu hwynebu oherwydd anabled.



# Beth rydym ni'n meddwl y dylai ddigwydd

- Canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar i wella iechyd a lles plant a theuluoedd.
- Cydweithio i gefnogi plant anabl a phlant gydag anghenion cymhleth.
- Cydweithio i wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- Rhoi cefnogaeth rianta i dorri cylchoedd o rianta anaddas, a chodi hyder rhieni gyda'u sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd lle maent yn cael eu meithrin ac sy'n gadarnhaol.
- Hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r wybodaeth, cyngor a chymorth maent yn eu rhoi.
- Cydweithio fel rhanbarth i rannu arfer da, er enghraifft, o ran sut y gall gwasanaethau maethu gefnogi gofawyr teuluol / pobl gysylltiedig, yn y ffordd orau.
- Parhau i weithio ar y dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

*“Mae angen bod yn gyflymach pan fydd cri am help...”*

*- Rhiant plentyn anabl*

## Rydym angen mwy o ymchwil gyda...

- Sut i gasglu data yn yr un ffordd ym mhob maes
- Gwasanaethau eirioli
- Masnachu mewn plant a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant
- Sut y bydd angen i wasanaethau oedolion newid i fodloni anghenion mwy o blant ifanc anabl gydag anghenion cymhleth yn y dyfodol
- Anghenion plant ieuengach a phlant sy'n derbyn gofal gyda phroblemau iechyd meddwl.
- Dulliau adferol ac arfer da

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Yr hawliau hyn yw'r pethau y mae'r plant eu hangen i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus, gan gynnwys yr hawl i chwarae. Mae cefnogi hawl y plentyn i chwarae'n darparu ystod eang o fuddion i blant a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae mwy o wybodaeth am hawl y plentyn i chwarae yn Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol pob cyngor.

# Themâu

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, anabledau corfforol ac amhariadau synhwyrdd
- Anabledau dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig, a thrais rhywiol
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr
- Pobl yn yr ystâd ddiogel

# Rhagor o wybodaeth

## Pecyn gwaith asesu poblogaeth:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/population-assessment-toolkit?record-language-choice=en-cy>

## Cod Ymarfer Rhan 2:

<http://www.cgymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/?force=2>

## Canllaw cynllun ardal:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

**Dewis Cymru** (gwasanaethau ar gael i fodloni'r anghenion a nodir yn yr asesiad):

<https://www.dewis.cymru/>

# Cysylltwch â ni

Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect

01824 712432

[sarah.bartlett@sirddinbych.gov.uk](mailto:sarah.bartlett@sirddinbych.gov.uk)

# Cefndir i'r asesiad poblogaeth

Mae'r asesiad poblogaeth yn dwyn ynghyd wybodaeth am anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr yng ngogledd Cymru. Mae'n anelu at ddangos pa mor dda y mae anghenion pobl yn cael eu bodloni a'r gwasanaethau y byddwn eu hangen i'w diwallu yn y dyfodol. Fe wnaeth awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a gefnogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i lunio'r asesiad sy'n un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr asesiad poblogaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau rydym angen eu darparu yng ngogledd Cymru i ddiwallu anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr. Bydd yn ein helpu i benderfynu lle i ddefnyddio ein hadnoddau, i ddiwallu gofynion eraill y ddeddf ac i ddylanwadu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi defnyddio pob math o dystiolaeth i adnabod beth sydd ei angen ac wedi gofyn i bobl beth maent yn ei feddwl sy'n bwysig, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi ar hyn o bryd, panel dinasyddion gogledd Cymru, a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau yn yr awdurdodau lleol, sectorau iechyd, preifat a gwirfoddol.

